Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL)

'Hysbysiad OPTIO ALLAN o'r Cynllun Pensiwn'

Manylion personol			
Teitl:		**Enw llawn:**	
Cyfeiriad:			
		Cod post:	
Rhif Yswiriant Gwladol:		**Dyddiad geni:**	
Cyflogwr:			
Rhif cyflogres:		**Rhif y swydd:**	
Teitl y swydd:			

Dewis Iaith	(Ticiwch y blwch priodol i nodi'ch dewis)		
A minnau'n aelod o'r CPLlL, hoffwn i dderbyn **POB** gohebiaeth yn y dyfodol:			
YN GYMRAEG		**YN SAESNEG**	

Datganiad y gweithiwr	**DYCHWELWCH Y FFURFLEN YMA I'CH CYFLOGWR**

Dylai'r ffurflen yma gael ei llofnodi a'i dyddio DIMOND **ar ôl i chi ddechrau'r swydd berthnasol**. Os caiff ei llofnodi a'i dyddio cyn eich dyddiad cychwyn, bydd y ffurflen yma'n **ANNILYS**. **Os oes gyda chi fwy nag un swydd gyda'ch Cyflogwr, bydd gofyn i chi lenwi ffurflen Optio Allan ar gyfer pob swydd NAD ydych am iddi fod yn rhan o'r CPLlL.**

Rwy'n datgan, trwy optio allan o'r CPLlL, fy mod i, yn fwriadol, yn ildio'r cyfle i fod yn aelod o'r CPLlL a fyddai'n darparu pecyn gwarantedig o fuddion sy'n cael eu hategu gan y gyfraith. Mae hyn yn cynnwys:

- **pensiwn diogel** - sy'n daladwy am oes ac sy'n cynyddu gyda chostau byw.
- **opsiwn arian parod di-dreth** - bydd modd i chi gyfnewid rhan o'ch pensiwn am rywfaint o arian parod di-dreth ar ôl ymddeol
- **opsiwn ymddeol yn gynnar o wirfodd** - o 55 oed.
- **yswiriant salwch difrifol** - gall eich buddion fod yn daladwy am oes gyda gwelliant posibl.
- **yswiriant dileu swydd** - os ydych chi'n 55 oed neu'n hŷn, bydd eich buddion heb eu lleihau yn cael eu talu ar unwaith.
- **yswiriant bywyd** - cyfandaliad o dair gwaith eich cyflog, pe byddech chi'n marw mewn gwasanaeth.
- **buddion goroeswyr** - pensiwn i'ch priod, partner sifil, partner cymwys sy'n cyd-fyw a / neu unrhyw blant cymwys sydd gyda chi.

Rwyf wedi darllen yr uchod a'r nodiadau canllaw, ac rwy'n deall bod y dewisiadau rwy'n eu gwneud nawr yn bwysig wrth gynllunio ar gyfer fy ymddeoliad. Rwy'n deall, os bydda i'n optio allan, y galla i **golli'r hawl i gyfraniadau pensiwn gan fy nghyflogwr,** ac efallai y bydd gyda fi incwm is pan fydda i'n ymddeol. **Rwy'n cadarnhau fy mod yn dymuno optio allan o'r cynllun pensiwn yn y swydd a nodais ar y ffurflen yma.**

Llofnod:		**Dyddiad:**	

I'w llenwi gan yr adran sy'n cyflogi'r gweithiwr			
Llofnod:		**Dyddiad:**	
Enw Cyswllt:		**Rhif ffôn:**	

Ydy'r cyfraniadau wedi'u had-dalu trwy'r gyflogres?	**Ydyn / Nac ydyn**

Nodiadau Canllaw

1) Mae gyda chi'r opsiwn i ostwng eich cyfradd cyfrannu arferol o hanner, er mwyn cronni hanner lefel y pensiwn yn y cynllun yn ystod y cyfnod yma. Gallai hyn fod yn opsiwn gwell na gorfod optio allan o'r cynllun yn gyfan gwbl. Mae hyn yn cael ei alw'n **Adran 50/50**. Er mwyn gwneud hynny, cysylltwch â'ch Cyflogwr i ofyn am y ffurflen ddewis briodol.

2) Dim ond ar ôl i chi ddechrau cyflogaeth yn y swydd berthnasol, neu cyn eich dyddiad ailgofrestru, y cewch chi lofnodi a dyddio'r ffurflen optio allan yma, os ydych wedi optio allan o'r blaen ac yn cael eich ail-gofrestru'n awtomatig gan eich cyflogwr.

3) Chewch chi ddim llofnodi a dyddio'r ffurflen cyn hynny gan y bydd hyn yn cael ei drin yn optio allan annilys.

4) All eich cyflogwr ddim gofyn i chi optio allan na'ch gorfodi chi i wneud hynny. Os yw'ch cyflogwr yn gofyn i chi optio allan neu'n eich gorfodi chi i wneud hynny, cewch chi roi gwybod i'r Rheoleiddiwr Pensiynau - gweler www.thepensionregulator.gov.uk

5) Os oes swydd arall gyda chi gyda chyflogwr arall, gallai'r cyflogwr hwnnw hefyd drefnu eich bod chi'n cymryd rhan yn y cynllun pensiwn, nawr neu yn y dyfodol. Mae'r ffurflen optio allan yma dim ond yn eich eithrio o gynilion pensiwn y CPLlL mewn perthynas â'r cyflogwr a'r swyddi rydych chi wedi'u henwi ar y ffurflen yma. Rhaid llenwi ffurflen optio allan ar wahân a'i rhoi i unrhyw gyflogwr arall rydych chi'n gweithio iddo os ydych chi am optio allan o gynllun pensiwn y cyflogwr hwnnw hefyd.

   Bydd angen i chi gael y ffurflen optio allan ar gyfer cyflogaeth gyda'r cyflogwr hwnnw'n uniongyrchol gan **Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf**.

6) Os byddwch chi'n optio allan o'r CPLlL cyn cwblhau 3 mis o aelodaeth, cewch eich trin fel rhywun na fu erioed yn aelod a byddwch chi'n derbyn ad-daliad o unrhyw gyfraniadau sydd wedi'u didynnu o'ch cyflog. Os byddwch chi'n optio allan gyda mwy na 3 mis ond llai na 2 flynedd o aelodaeth, ac nad oes gyda chi fuddion gohiriedig neu bensiwn sy'n cael ei dalu eisoes gan y CPLlL yng Nghymru neu Loegr, fel rheol, bydd modd i chi gael ad-daliad o'r cyfraniadau. Bydd didyniad ar gyfer treth.

7) Os byddwch chi'n optio allan o'r CPLlL gydag aelodaeth 2 flynedd neu fwy, bydd gyda chi hawl i fuddion pensiwn gohiriedig yn y CPLlL. Dim ond ar ôl i chi adael eich cyflogaeth ac fel arfer o'ch oedran pensiwn arferol y bydd modd i chi gael eich pensiwn gohiriedig (sydd yr un fath â'ch Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ond gydag isafswm o 65 oed) neu ar sail is o 55 oed ymlaen
   Rhaid i'ch pensiwn CPLlL gael ei roi i chi yn 75 oed fan bellaf. Fel arall gallwch chi drosglwyddo'ch buddion gohiriedig i gynllun pensiwn arall cyn belled â'ch bod yn dewis gwneud hyn o leiaf blwyddyn cyn eich oedran pensiwn arferol.

8) Os penderfynwch chi optio allan o aelodaeth o'r CPLlL ac yna'n newid eich meddwl, bydd modd i chi ailymuno â'r cynllun ar yr amod eich bod chi o dan 75 oed a'ch bod yn parhau mewn cyflogaeth sy'n eich cymhwyso i fod yn aelod o'r CPLlL. Bydd angen i chi ysgrifennu at eich cyflogwr os ydych chi am ddewis ailymuno â'r cynllun.

9) Os byddwch chi'n optio allan o'r CPLlL mewn cyflogaeth ar, neu ar ôl **11 Ebrill 2015** gyda hawl i fuddion gohiriedig (a does dim cyflogaeth arall gyda chi rydych chi'n dal i fod yn aelod o'i chynllun pensiwn), fydd **DIM** hawl gyda chi, os byddwch chi'n ailymuno â'r cynllun wedi hynny, i gydgrynhoi'r buddion gohiriedig hynny ag unrhyw gyfnod aelodaeth yn y CPLlL yn y dyfodol.

10) Os byddwch chi'n parhau i optio allan, bydd eich cyflogwr fel arfer yn trefnu i chi ailymuno yn awtomatig oddeutu **3 blynedd** o'r dyddiad y mae rhaid iddo gydymffurfio â darpariaethau cofrestru awtomatig Deddf Pensiynau 2008. Serch hynny, bydd hawl gyda chi eto ar yr adeg honno i optio allan o aelodaeth o'r cynllun.

11) Os byddwch chi'n newid cyflogwr, fel rheol bydd hwnnw'n trefnu eich bod chi'n ailymuno â'r cynllun pensiwn yn syth.

12) Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ac rydyn ni'n defnyddio'ch data personol yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth

gweinyddu pensiwn ar eich cyfer chi. I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut rydyn ni'n cadw'ch data, gyda phwy rydyn ni'n ei rannu a pha hawliau sydd gyda chi o ran eich gwybodaeth, edrychwch ar yr Hysbysiad Preifatrwydd ar wefan y Gronfa Bensiwn: **www.rctpensions.org.uk**.

Dychwelwch y ffurflen yma i'ch cyflogwr